OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 173 (Cy.24)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *31 Ionawr 2006* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Chwefror 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 214 o Ddeddf Addysg 2002(**1**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 1 Chwefror 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "blwyddyn ysgol" ("*school year*"), yng nghyd-destun cyfeiriadau at dderbyn plentyn i ysgol mewn unrhyw flwyddyn benodol, yw'r flwyddyn ysgol pryd y byddai'r plentyn hwnnw yn cymryd ei le yno gyntaf o ganlyniad i benderfyniad i'w dderbyn;

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**2**); ac

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

(2) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau, yn eu trefn, at adrannau o Ddeddf 2002 ac Atodlenni iddi.

**Dirymu**

**3.** Dirymir Rheoliadau Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Derbyniadau a Niferoedd Safonol) (Addasiad) 1999(**3**).

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) 1998 p.31.
(**3**) O.S. 1999/1064.

**Darpariaethau Trosiannol — Trefniadau Derbyn**

**4.** Er i adran 47(1) ddod i rym nid yw'r diwygiadau i adran 86 o Ddeddf 1998 yn cael effaith o ran derbyn plentyn i ysgol a gynhelir mewn unrhyw flwyddyn ysgol gynharach na'r flwyddyn ysgol 2008-09.

**5.** Er i ddirymiadau adran 93 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 23 iddi ddod i rym, a'r diffiniadau o "the relevant standard number" yn adrannau 84(6) ac 143 o Ddeddf 1998, mae'r darpariaethau hynny yn dal i gael effaith o ran unrhyw flwyddyn ysgol gynharach na'r flwyddyn ysgol 2008-09.

**6.** Er i adran 47(2) a pharagraff 5 o Atodlen 4 ddod i rym, nid yw Adran 89A newydd Deddf 1998 na'r diwygiadau i adran 89 o Ddeddf 1998 yn cael effaith o ran penderfynu ar drefniadau derbyn ar gyfer ysgol a gynhelir am unrhyw flwyddyn ysgol gynharach na blwyddyn ysgol 2008-09.

**7.** Er i baragraff 6 o Atodlen 4 ddod i rym, nid yw'r diwygiadau i adran 90 o Ddeddf 1998 yn cael effaith o ran y trefniadau derbyn ar gyfer ysgol a gynhelir am unrhyw flwyddyn ysgol gynharach na'r flwyddyn ysgol 2008-09.

**8.** Er i baragraff 12(2) o Atodlen 4 ddod i rym, nid yw'r diwygiad i adran 98(2) o Ddeddf 1998 yn cael effaith o ran derbyn plentyn i ysgol a gynhelir ar gyfer addysg feithrin mewn unrhyw flwyddyn ysgol gynharach na'r flwyddyn ysgol 2008-09.

**9.** Er i baragraff 14 o Atodlen 4 ddod i rym, nid yw'r diwygiad i adran 439(2) o Ddeddf Addysg 1996(**4**) yn cael effaith o ran unrhyw orchymyn mynychu'r ysgol a wneir o dan adran 437 o'r Ddeddf honno yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol gynharach na'r flwyddyn ysgol 2008-09.

**Diwygio Deddf 1998**

**10.**—(1) Yn adran 98(6) ac (8) o Ddeddf 1998 rhodder "92(c) and (d)" yn lle "92(3) to (6)".

(2) Mae Rheoliadau a wneir o dan adran 92 o Ddeddf 1998 cyn 1 Chwefror 2006 i gael effaith fel petaent wedi'u gwneud o dan adran 92 o Ddeddf 1998 fel y'i disodlwyd gan baragraff 7 o Atodlen 4 ynddi.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999**

**11.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999(**5**) fel a ganlyn o ran y flwyddyn ysgol 2008-09 a blynyddoedd ysgol olynol.

(2) Yn lle rheoliad 2(2) rhodder y paragraff canlynol—

> "(2) For the purposes of these Regulations the capacity of a school is to be determined in accordance with the capacity assessment method set out in the guidance document "Measuring the capacity of schools in Wales" issued by the National Assembly(**6**).".

(3) Yn rheoliad 5, hepgorer o baragraff (1) y geiriau "and paragraph 9(1)(a) of Schedule 23" ac "and paragraph 9 of Schedule 23", a hepgorer is-baragraff (3)(c).

(4) Yn rheoliad 6, hepgorer o baragraff (1) y geiriau ", and paragraph 9(1)(b) of Schedule 23 to," ac ", and paragraph 9 of Schedule 23 to,", a hepgorer paragraff (3).

(5) Yn rheoliad 7, hepgorer o baragraff (1)(a) y geiriau "and paragraph 9(6) of Schedule 23" ac o baragraff (2) y geiriau "or paragraph 9 of Schedule 23".

(6) Hepgorer rheoliad 11.

(7) Hepgorer Atodlen 1.

(8) Yn Atodlen 3, hepgorer Rhan V a'r pennawd i'r Rhan honno.

(**4**) 1998 p.31.
(**5**) O.S. 1999/1671 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/908 (Cy.91).
(**6**) Mae'r canllaw yma ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol www.dysgu.cymru.gov.uk.